trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 11
Mehefin 2009

Tîm Belffast.

Ar 11 Gorffennaf 2009, bydd 8 o bobl ifanc o Ogledd Iwerddon yn dod aton ni am bythefnos fel rhan o ymgyrch genhadol yn Llŷn. Arweinydd y tîm fydd Erika Frank, merch o Lŷn sy'n byw ym Melffast ers pedair blynedd fel myfyriwr ac fel caplan cynorthwyol mewn eglwys sy'n gweithio gyda myfyrwyr. Rŷn ni'n edrych ymlaen yn fawr at gael cydweithio ag Erika a'r tîm ar y prosiect yma. Rŷn ni bron wedi darfod trefnu'r holl weithgareddau a digwyddiadau ar gyfer y pythefnos. Hoffem i chi weddïo dros daith ddiogel a thros yr holl drefniadau.

Twrnament Pêl Droed.

***** Dyddiad Newydd *****

Mae twrnament pêl droed blynyddoedd 7-9 wedi newid o 24 Mehefin i 6 Gorffennaf. Bu'n rhaid symud am fod dyddiadau arholiadau'r ysgolion wedi newid a doedd arnon ni ddim eisiau torri ar draws adolygu'r plant. Felly, bydd y twrnament ar 6 Gorffennaf, ar yr Astroturf yn Ysgol Botwnnog rhwng 5.30 a 9.00pm gyda barbeciw ar y diwedd. Os ydych am ddod â thîm, mae angen cofrestru ymlaen llaw. Bydd tâl bychan o £5 y tîm yn gyfraniad at gost y digwyddiad. Bydd John Pritchard yn rhoi sgwrs i'r hogiau ar y diwedd. Rŷn ni'n edrych ymlaen yn fawr at y twrnament. Gawson ni amser gwych y llynedd a'r gobaith yw y bydd hi'n noson dda, gyda nifer fawr o dimau, eleni eto.

Clwb Traeth.

O ddydd Llun i ddydd Gwener, 20-25 Gorffennaf, byddwn yn cynnal clwb plant ar y traeth yn Nhudweiliog, gan gydweithio â Chapel Tudweiliog, gyda help y tîm o Ogledd Iwerddon. Rŷn ni'n edrych ymlaen yn fawr at gael helpu'r capel â'u gweinidogaeth yn Nhudweiliog ac yn gweddïo y bydd hyn yn arwain at ddechrau clwb plant yn y pentref ym mis Medi. Byddwn yn rhannu taflenni gwybodaeth i'r plant yr wythnos cynt pan ddown i'r ysgol ac yn atgoffa pobl dros y penwythnos. Os gwyddoch am blentyn a hoffai ddod i'r clwb, dowch â nhw draw. Byddwn yn cyfarfod ar y traeth rhwng 2 a 4pm os bydd y tywydd yn iawn. Os bydd yn bwrw, byddwn yn mynd i'r capel. Bydd gennym nosweithiau hwyl i'r teulu cyfan yn Nhudweiliog ar y nos Fawrth a'r nos Wener yr wythnos honno a nosweithiau ar gyfer pobl ifanc ym Mhwllheli ar y nos Lun a'r nos Iau.

Gweithwyr Plant ac Ieuenctid Cristnogol Gwynedd

Llinos Morris (Caernarfon), Andy Hughes (Saint y Gymuned), Heidi Bakewell (Botwnnog), Llinos Roberts (Trefor), Gwyn, Rachel, Aled Ifan (Bangor), John ac Andrew Settatree (Llanrug)

Daeth y naw uchod at ei gilydd ar 4 Mehefin i ddysgu am y gwaith Cristnogol ymhlith plant ac ieuenctid ardal Peblig, Caernarfon. Trafodwyd beth yw hanfodion elfennol gweithiwr plant ac ieunctid. Treuliwyd amser yn edrych ar ddarn o'r Beibl a chafwyd gyfnod o weddi.

Wythnos Ieuenctid.

Gan fod y tîm o Belffast yma yn ystod wythnos olaf y tymor ysgol, rŷn ni wedi trefnu i ymweld â nifer o ysgolion ac i gynnal amryw o ddigwyddiadau ieuenctid. Hyd yma, trefnwyd iddynt fynd i Ysgol Tudweiliog, Ysgol Edern ac Ysgol Pont y Gof. Mae trefniadau ar y gweill iddynt fynd i'r ysgolion uwchradd hefyd. Bob noson yr wythnos honno, rŷn ni wedi trefnu digwyddiad ieuenctid gyda'r tîm mewn gwahanol ardaloedd. Bydd gêmau, tystiolaeth, drama, canu a hwyl. Dyma'r cynllun hyd yma:

Nos Lun 13: Capel y Drindod, Pwllheli. 7:00pm – 8:30pm (Pwllheli a'r Ffôr).
Nos Fawrth 14: Neuadd Egwlsy Deuluol Cricieth. 7:00pm – 8:30pm (Cricieth a Phorthmadog).
Nos Fercher 15: Ysgol Pont y Gof, Botwnnog. 7:00pm – 8:30pm (Sarn, Botwnnog, Morfa Nefyn, Nefyn a Llanbedrog).
Nos Iau 16: Canolfan Llithfaen. 7:00pm – 8:30pm (Chwilog, Trefor a Llithfaen).

Ar y nos Wener, bydd pobl ifanc o'r holl ardaloedd yn dod at ei gilydd ar gyfer "Gemau Giamocs" gyda llond trol o gêmau hwyliog. Bydd tîm Belffast wedi paratoi rhywbeth i'w rannu a bydd pawb yn dod â phicnic hefyd. Bydd hynny ar nos **Wener 17** Gorffennaf yn y Ganolfan, y Ffôr rhwng 7:00 a 9:00pm. Os hoffech ragor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn, cysylltwch â ni.

Porth Tywyn Tudweiliog

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202